## P-05-1117 Rhowch y Brechlyn COVID i Swyddogion yr Heddlu fel blaenoriaeth

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Graham Bishop, ar ôl casglu cyfanswm o 10,879 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Nid yw swyddogion yr heddlu ar y rhestr flaenoriaeth i gael y brechlyn COVID-19, er eu bod mewn swyddi risg uchel.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Mae fy mab yn heddwas a gafodd ei heintio â COVID wrth arestio aelod o'r cyhoedd. Ar hyn o bryd, mae wedi bod i ffwrdd o'r gwaith am 4 wythnos a phennwyd na fydd yn dychwelyd tan ddiwedd mis Rhagfyr. Trosglwyddodd y feirws i'w wraig oedd yn feichiog iawn, ac aeth hi yn ei thro i'r ward COVID yn yr ysbyty. Bu'n rhaid iddi gael toriad Cesaraidd ar frys, a ganed yr efeilliaid ddeufis yn rhy gynnar. Dyw'r heddlu ddim yn unig yn peryglu eu hunain o ddydd i ddydd, maen nhw hefyd yn peryglu eu teuluoedd. At hynny, mae colli amser plismona'n gryn straen ar yr heddlu pan fod ei swyddogion adre'n sâl gyda COVID.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**
- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru